

**Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Corsydd Llangloffan**

**Yr afon a newidiodd ei meddwl**

Mae'r GNG hon yn ffurfio rhan o'r gors gorllifdir dyffryn-afon fwyaf sy'n dal i fodoli yn Sir Benfro. Arferai'r gorllifdir llydan gynnwys afon oedd yn draenio'n gyflym tua'r gorllewin i mewn i'r môr gerllaw yn Abermawr.

Ond tua 12,000 o flynyddoedd yn ôl, gollyngodd rhewlif glai a deunyddiau eraill gan rwystr o'r hen afon a'i gorfodi i ddilyn trywydd newydd i'r dwyrain-afon ifanc Cleddau Wen (mae ei tharddiad gerllaw). Ers hynny, mae'r dyffryn wedi llenwi'n raddol â phriddoedd mwyn, gweddillion planhigion a mawn, sydd wedi arwain at y gymysgedd fawreddog o blanhigion gwyllt sydd i'w gweld yma heddiw.

Mae'r prif gynefinoedd yn cynnwys ardaloedd o gors ffen a chys trwchus, coetir gwlyb a glaswelltir corslyd sy'n cael ei bori.

Mae dwy ran i Warchodfa Natur Genedlaethol Corsydd Llangloffan. Caiff y rhan orllewinol ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, a ni sy'n edrych ar ôl y rhan ddwyreiniol.

**Welcome to Corsydd Llangloffan National Nature Reserve**

**The river that changed its mind**

This NNR forms part of the largest floodplain river-valley mire surviving in Pembrokeshire. The wide floodplain originally contained a river that quickly drained westwards into the sea at nearby Abermawr.

But around 12,000 years ago, a glacier dumped clay and other materials blocking the old river and forcing it to forge a new course east - the infant Western Cleddau River (the source is nearby). Since then, the valley has gradually filled with mineral soils, plant remains and peat, resulting in the magnificent mix of wild plants we see here today.

The main habitats include areas of dense fen and reed swamp, wet woodland and areas of grazed marshy grassland.

Corsydd Llangloffan National Nature Reserve has two parts. The western part is managed by the Wildlife Trust of South and West Wales, whilst we look after the eastern part.

**Cadwch lygad barcud**

Yn rhannau gwlypaf y warchodfa, mae blodau lliw hufen prydfferth yr erwain yn llenwi'r awyr yn yr haf gyda'u harogl hyfryd wrth iddyn nhw wthio drwy'r cyrs a'r hesg. Cadwch lygad hefyd am:

- dalpiau enfawr o hesgen rafunog fawr
- pefrwellt
- corsen
- hesgen-y-dŵr fawr

Mae teimlad hynafol i'r coetir gwlyb, mae ei choed wedi eu gorchuddio gan fwsoglau melfedaidd a chennau arian. Ymhlith y planhigion eraill sydd yma mae:

- rhedynen y gors
- rhedynen gyfrdwy
- eurinllys tonnog
- corsfrwynen lem (un o ddim ond dau leoliad hysbys yn Sir Benfro)

**Ar hyd yr afon ceir:**

- mursennod o deulu'r morwynion, sy'n sgleinio'n wyrdd symudliw
- nadroedd y gwair a gwiberod patrwm diemwnt
- llygon y dŵr
- y dyfrgi gwibog

Ymhlith yr adar y gellid eu gweld neu eu clywed mae:

- hwyaid gwyllt
- ieir dŵr
- rhegennod dŵr
- giachod cyffredin
- breision y cyrs
- troellwyr bach
- telorion yr hesg a thelorion y cyrs

Oherwydd bod digon o ddewis yma, daw adar ysglyfaethus draw'n rheolaidd, gan gynnwys bwncathod, cudyllod coch, gweilch glas a thylluanod gwynion.

**What to look out for**

Along the wetter parts of the reserve, the wonderful frothy cream blooms of meadowsweet fill the air in summer with their delicious scent as they push through the reeds and sedges. Also look for:

- huge clumps of greater tussock sedge
- reed canary grass
- common reed
- greater pond sedge

The wet woodland has an ancient feel, its trees cloaked in velvety mosses and silvery lichens. Other plants here include:

- marsh fern
- royal fern
- wavy St John's-wort
- great fen-sedge (one of only two known locations for it in Pembrokeshire)


**Along the river there are:**

- demoiselle damselflies, shimmering with iridescent green
- grass-snakes and diamond-patterned adders
- water shrews
- the elusive otter

**Birds to look or listen out for include:**

- mallard ducks
- moorhens
- water-rails
- snipe
- reed bunting
- grasshopper warblers
- sedge and reed warblers

Because of the rich pickings offered here, birds of prey are attracted frequently, including buzzards, kestrels, sparrowhawks and barn owls.



**Llwybr Cors Calchog Llangloffan**  
**Llangloffan Fen Walk**

llwybr awgrymwyd suggested route

**Hygyrth | Accessible**

Pellter | Distance: 1m | 1.5km  
yno ac yn ôl | there and back  
Amser | Time: 1 awr | hour

**Uchafbwyntiau: Dewch i ddarganfod cors galchog, cors a choetir wlyb y warchodfa ar ein llwybr bordiau hygyrch.**


**Highlights: Discover the reserve's fen, swamp and wet woodland on our fully accessible boardwalk.**



reghen ddŵr | water rail



rhedyn y gors | marsh fern



morwyn dywyll | 'beautiful demoiselle' damselfly



cennau | lichens

**Cadw'r warchodfa'n gorslyd**

Er mwyn edrych ar ôl y warchodfa, rydyn ni'n sicrhau nad yw lefel y dŵr byth yn cael gostwng yn rhy isel, gan leihau'r perygl o gollu'r cynefin gwlypdirol. Rydyn ni'n rhoi gwartheg neu ferlod allan i bori ar y ffen yn yr haf ac yn yr hydref er mwyn cynnal a chadw'r llystyfiant.

**Keeping the reserve soggy**

To look after the reserve, we ensure that the water level is never allowed to drop too low, reducing the risk of losing the wetland habitat. We turn cattle or ponies out to graze on the fen in summer and autumn to keep the vegetation in check.

**ER EICH DIOGELWCH:**

- Helpwch i ddiogelu Corsydd Llangloffan drwy ddilyn y Cod Cefn Gwlad, a chofiwch: **Parchwch; Diogelwch; Mwynhewch.**
- Arhoswch ar y llwybr bordiau: caiff ffosydd sydd wedi gorllo ei cuddio gan llystyfiant trwchus sy'n amolïo - ac mae'r ddaear yn feddal ac yn llawn dŵr
  - Mae ochrau glantau aflonydd yn serth, maen nhw'n aml heb eu torri ddiagon ac efallai y byddan nhw wedi gorlytu
  - Mae pyliau dwfn yn yr afon, ac efallai y gwnaiff ei lefel godi'n gyflym ar ôl glaw trwm
  - Os ydych chi'n gweld gwiberod neu nadroedd gadewch lonydd iddyn nhw
  - Cadwch gwŷn ar dennydd oherwydd efallai y bydd gwartheg neu ferlod yn pori mewn cae caeedig â weiren bigog yn yr haf a'r hydref.

**FOR YOUR SAFETY:**

- Please help to protect Corsydd Llangloffan by following the Countryside Code and remember to **Respect; Protect; Enjoy.**
- Stay on the boardwalk: flooded ditches are often hidden by floating and dense vegetation - and there is soft, waterlogged ground
  - River banks are steep-sided, often undercut and may be overgrown
  - The river has deep pools, and its level may rise quickly after heavy rain
  - If you come across adders or snakes please leave alone
  - Please keep dogs on leads as cattle or ponies may be grazing in summer and autumn in barbed wire enclosures.



© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrwydd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) - Mawrth 2019  
© Airbus Defence & Space a Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) - March 2019